**Eitem Agenda Rhif 4**

# CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd am 9.30 y bore ar ddydd Mawrth 21 Chwefror, 2012 yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun.

## YN BRESENNOL

Cynghorwyr: P.A. Dobb, Aelod Arweiniol dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles; H.H. Evans, Arweinydd; S. Frobisher, Aelod Arweiniol dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy; M.M. Jones, Aelod Arweiniol dros yr Iaith Gymraeg, Plant, Pobl Ifanc a Hamdden; P.J. Marfleet, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio'r Cyngor; D.A.J Thomas, Aelod Arweiniol dros Adfywio a Thwristiaeth, J. Thompson Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Effeithiolrwydd ac E.W. Williams, Aelod Arweiniol dros Addysg.

**Sylwedyddion**: Cynghorwyr M.Ll. Davies, G.C. Evans, E.R. Jones, a D.I. Smith

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau (HW); Demograffeg, Lles a Chynllunio (SE), a Thrawsnewid Busnes ac Adfywio (BJ); Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (RGW); Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM); Pennaeth Gwasanaethau Tai (PM) Rheolwr Adfywio Strategol (MD) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

## PWYNT HYSBYSU

Rhoddodd y Cynghorydd P.A. Dobb adroddiad am lansiad swyddogol Gofal Gogledd Cymru y Groes Goch Brydeinig, ar 17 Chwefror 2012, ble'r oedd Mark Isherwood, AS yn siaradwr gwadd. Fe wnaeth Mr Isherwood gydnabod y Cyngor am nifer o fentrau ac roedd y Cynghorydd Dobb yn falch fod eraill ar draws Cymru a'r DU wedi clywed pa mor flaengar ac arloesol oedd Sir Ddinbych.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Nid oedd dim ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN BUDDIANNAU

Cyhoeddodd y Cynghorydd D.A.J. Thomas fudd personol ond heb fod yn niweidiol yng Nghyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2012/13 (Eitem Agenda Rhif 11) gan ei fod yn denant i'r cyngor. Cyhoeddodd y Cynghorydd M.L. Davies fudd personol ond heb fod yn niweidiol yn yr eitem honno hefyd gan ei fod yn rhentu garej cyngor.

## 3 MATERION BRYS

Nid oedd dim materion brys wedi'u codi.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2012.

**Materion yn Codi –**

Tudalen 3 - Eitem Rhif 6 Cynllun Tref Rhuthun - Roedd y Cynghorydd P.A. Dobb wedi bod yn falch o nodi bod sylwadau cynghorwyr wedi'u hystyried a'u hymgorffori yng Nghynllun y Dref cyn ei gyflwyno i'r Grŵp Aelodau Ardal. Roedd Cynllun Tref Rhuthun wedi dod yn Gynllun Tref cyntaf i'w gwblhau'n derfynol ers hynny.

Tudalen 5 – Eitem Rhif 7 Adroddiad Cyllid – Diolchodd y Cynghorydd M.Ll. Davies i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Demograffeg, Lles a Chynllunio am ei gyflenwi ag ymateb i'w ymholiad ynghylch cael gwared ag asbestos.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2012 fel rhai cywir a'u harwyddo gan yr Arweinydd.*

**5 PROSIECT GWASANAETH RHANBARTHOL GWELLA AC EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION (RSEIS) – ACHOS BUSNES LLAWN**

Cyflwynodd y Cynghorydd E.W. Williams yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r Achos Busnes Llawn ar gyfer Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella ac Effeithiolrwydd Ysgolion (RSEIS) newydd ar draws chwe awdurdod Gogledd Cymru.

Roedd y prosiect yn anelu at sefydlu gwasanaeth rhanbarthol a fyddai'n ganolog i wella ysgolion yng Ngogledd Cymru ac yn gyrru arfer da ar draws y rhanbarth gan sicrhau her a chymorth i ysgolion. Pwysleisiodd y Cynghorydd Williams y byddai'r gwasanaeth newydd yn cryfhau'r Iaith Gymraeg yn arbennig yn ysgolion Sir Ddinbych a byddai'n hyrwyddo gwella ysgolion drwodd draw. Cyfeiriodd at y datblygiadau allweddol i'r Achos Busnes Llawn yn cynnwys trefniadau llywodraethu; penderfynu ar yr awdurdod croesawu; staffio a graddfeydd amser ar gyfer gweithredu. Cyfeiriwyd hefyd at y goblygiadau ariannol a'r arbedion y byddid yn eu gwneud. Yn olaf dywedodd y Cynghorydd Williams fod y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi bod yn fodlon ar y ffordd yr oedd y prosiect yn symud ymlaen ond bod cwestiynau wedi'u codi ynghylch trefniadau craffu yn y dyfodol, a oedd dan ystyriaeth.

Roedd y Cabinet yn croesawu'r adroddiad cynhwysfawr ar brosiect mor gyffrous a llongyfarchwyd y rheini a oedd a wnelo â chynhyrchu'r Achos Busnes Llawn. Teimlai'r Aelodau fod y prosiect RESIS yn gosod cyfeiriad clir a ffordd ymlaen flaengar yn arwain at wella ysgolion tra'i fod yn cyflenwi gwerth yr arian a chynaliadwyedd at y dyfodol. Yn ystod trafodaeth fanwl gofynnodd yr aelodau am eglurhad ar nifer o faterion, gan gyfeirio'n arbennig at y gwahaniaeth cyfradd gwariant rhwng awdurdodau lleol ac ystyriaethau ariannol eraill; graddfeydd amser a gweithredu'r gwasanaeth; diffiniad awdurdodau 'croesawu' ac 'arweiniol'; trefniadau arolygu Estyn yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau ar y cyd, a pholisi Iaith Gymraeg y gwasanaeth newydd.

Fe wnaeth yr aelodau hefyd drafod trefniadau craffu yn y dyfodol ar gyfer prosiectau rhanbarthol a chydweithredol gan bwysleisio'r angen i brosesau clir gael eu sefydlu gyda system yn ei lle cyn i'r prosiect RESIS gael ei weithredu'n llawn. Roedd y Prif Weithredwr yn argymell craffu lleol ar wasanaethau rhanbarthol a phwysleisiodd yr

angen i aelodau arweiniol a swyddogion gael eu dal i gyfrif. Cyfeiriodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd at ddarpariaeth ym Mesur Llywodraeth Leol ar gyfer cydbwyllgorau trosolwg a chraffu gan ddweud bod disgwyl canllawiau drafft ar yr agwedd honno yn yr haf. Rhoddodd y Cynghorydd Williams sicrhad ynghylch tryloywder prosesau gan ddweud y byddid yn trefnu bod cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd ar gael yn gyhoeddus ac adroddiad blynyddol yn cael ei gynhyrchu fel bod modd gwneud gwiriadau parhaus.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ar gyfer Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella ac Effeithiolrwydd Ysgolion newydd.*

## 6 CANOLBWYNT COMISIYNU, CAFFAEL A MONITRO RHANBARTHOL

Cyflwynodd y Cynghorydd P.A. Dobb ei hadroddiad ar y cyd gyda'r Cynghorydd M.M. Jones yn gofyn am gytundeb y Cabinet i sefydlu Canolbwynt Comisiynu, Caffael a Monitro Rhanbarthol (CCRh) yng Ngogledd Cymru i wasanaethu'r chwe awdurdod lleol (addysg a gwasanaethau cymdeithasol) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar ôl cwblhau'r Achos Busnes Llawn.

Roedd cwmpas dechreuol y gwasanaethau a ddarperir gan y CCRh wedi'i gyfyngu i leoliadau gofal preswyl cost uchel, niferoedd isel yn fwy na £500 yr wythnos a byddai'n cynnwys elfennau o'r cylch comisiynu. Roedd disgrifiad o'r opsiwn a'r gweithgareddau dewisol wedi'i nodi yn yr adroddiad ynghyd â'r costau'n gysylltiedig â'r prosiect. Roedd wedi'i gynnig mai Cyngor Sir Ddinbych fyddai'n croesawu'r CCRh. Roedd manylion y buddion cost wedi'u darparu hefyd gyda chyfanswm arbedion amcanol o rhwng £1m - £1.8m dros gyfnod o dair blynedd.

Ystyriodd y Cabinet yr adroddiad gan nodi, er mai arbedion cymharol fach fyddai'n cael eu gwneud i Sir Ddinbych, y byddai'r CCRh yn darparu buddion eraill i'r awdurdod o ran ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ac arfer da. Roedd potensial hefyd ar gyfer cydweithredu rhanbarthol pellach ar wasanaethau eraill yn y dyfodol, megis lleoliadau ar gyfer gofal maeth a byw yn y gymuned a chategorïau eraill o leoliadau preswyl. Nododd yr aelodau fod BIPBC i gyfrif am bron hanner y gwariant ar y gwasanaethau sydd i'w darparu gan y CCRh a soniodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Demograffeg, Lles a Chynllunio am drefniadau llywodraethu cadarn sydd yn eu lle i ddelio ag elfennau cyfrannol costau ac angen ac i sicrhau bod cydbwysedd priodol yn cael ei gyrraedd rhwng y partneriaid. Rhoddwyd ystyriaeth bellach hefyd i'r buddion ariannol i bob partner fel y'u nodwyd yn yr Achos Busnes Llawn. Dywedodd Pennaeth Cyllid ac Asedau fod y risg ariannol i bob partner yn isel o ystyried y buddsoddiad cymharol isel oedd ei angen.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno i sefydlu Canolbwynt Comisiynu, Caffael a Monitro Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru i wasanaethu'r chwe awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar ôl cwblhau'r Achos Busnes Llawn fel y nodwyd yn yr atodiad i'r adroddiad.*

## 7 FFIOEDD CARTREFI GOFAL

Cyflwynodd y Cynghorydd P.A. Dobb yr adroddiad yn gofyn am gytundeb y Cabinet fod y fethodoleg ddiwygiedig ar gyfer cytuno ffioedd cartrefi gofal yn flynyddol i'w mabwysiadu.

Rhoddodd y Cynghorydd Dobb rywfaint o gefndir i'r sefyllfa bresennol ynghylch ffioedd cartrefi gofal a'r gwaith a wnaed i ddatblygu methodoleg ddiwygiedig ar gyfer gosod cyfradd deg a oedd yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â chanllawiau statudol. Roedd gwaith wedi'i wneud ar y cyd â Chynghorau Wrecsam a Sir y Fflint a oedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion. Cyfeiriwyd hefyd at yr adolygiad barnwrol llwyddiannus o Gyngor Sir Benfro gan berchnogion cartrefi gofal a'r newydd fod Castell-nedd Port Talbot wedi gallu herio eu hadolygiad barnwrol.

Ystyriodd yr aelodau y fethodoleg arfaethedig ar gyfer Sir Ddinbych a'r oblygiadau ariannol arwyddocaol i'r cyngor. Dywedodd y Cynghorydd Dobb fod y gwahaniaeth amcangyfrifedig yng nghyfraddau ffioedd cartrefi gofal o 2011/12 i 2012/13 yn £950k y flwyddyn. Ychwanegodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill fod cyfanswm o £900k ar gyfer 2012/13 wedi'i gynnwys yn y gyllideb. Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Arweinydd, soniodd Pennaeth Tai am y ffactorau sydd i'w cymryd i ystyriaeth o ran y trefniadau cyllido sydd yn eu lle ar gyfer cartrefi gofal preswyl.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno bod y fethodoleg ddiwygiedig ar gyfer cytuno ffioedd cartrefi gofal yn flynyddol i'w mabwysiadu.*

## 8 CYNLLUN TREF RHUDDLAN

Cyflwynodd y Cynghorydd D.A.J. Thomas yr adroddiad yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet i'r cynllun tref arfaethedig ar gyfer Rhuddlan (atodiad i'r adroddiad). Roedd y cynllun yn nodi sefyllfa bresennol y dref, heriau a chyfleoedd allweddol ynghyd â gweledigaeth a chamau i gyflawni'r weledigaeth honno.

Soniodd y Cynghorydd Thomas am y broses ymgynghori ac atgoffodd yr aelodau fod angen i gyflawniad y Cynlluniau Tref gael ei reoli gan y Grwpiau Aelodau Ardal. Soniodd Rheolwr Adfywio Strategol (SRM) am yr ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gyfeirio'n arbennig at ymateb gan breswylydd lleol yn cefnogi ffordd wahanol o fynd ati i ddarparu cyfleusterau yng nghaeau chwarae Admiral nad oedd yn cael ei ystyried yn gynnig dichonadwy ar ôl ymchwilio iddo.

Wrth ystyried Cynllun Tref Rhuddlan codwyd y sylwadau canlynol –

- roedd y cyfeiriad at fod gan y Cyflenwr Adeiladwyr lawer o gwsmeriaid yn rhy amhendant
- roedd angen i Warchodfa Natur Rhuddlan gael ei hamlygu
- ychydig sôn oedd am Gastell Rhuddlan a chysylltiadau pellach
- byddai tacluso'r ffosydd yn caniatáu llwybr cerdded o amgylch yr hen ffos a'r castell

***PENDERFYNWYD****, yn amodol ar sylwadau'r aelodau uchod, bod y Cabinet yn cefnogi'r cynllun tref arfaethedig ar gyfer Rhuddlan.*

## 9 CYNLLUN TREF LLANELWY

Cyflwynodd y Cynghorydd D.A.J. Thomas yr adroddiad yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet i'r cynllun tref arfaethedig ar gyfer Llanelwy (atodiad i'r adroddiad). Roedd y

cynllun yn nodi sefyllfa bresennol y dref, heriau a chyfleoedd allweddol ynghyd â gweledigaeth a chamau i gyflawni'r weledigaeth honno.

Soniodd Rheolwr Adfywio Strategol am yr ymatebion i'r ymgynghoriad fel a ganlyn–

- roedd Cyngor Tref Llanelwy wedi gofyn bod cyfeiriad at y lobïo am Ffordd Osgoi i'w gynnwys yng Nghynllun y Dref
- roedd y Cynghorydd D. Owens wedi gofyn fod y geiriad i'w newid ynglŷn â dyhead y Ganolfan Gymunedol i adlewyrchu'r ffaith fod trafodaethau'n dal i fynd ymlaen gyda golwg ar ddarparu cyfleuster o'r fath
- byddai mewnfuddsoddi yn y parc busnes yn debygol o olygu cydweithredu rhanbarthol gydag awdurdodau eraill
- byddai cyfeiriad yn cael ei wneud at y ffaith fod OpTIC Technium hefyd yn pontio Wardiau Bodelwyddan a Threfnant, y naill a'r llall
- roedd cyfarfod cadarnhaol gyda phobl ifanc y noson flaenorol wedi canfod bod y clwb ieuenctid yn gyfleuster gwerthfawr ond roedd yn ymddangos bod bwlch yn y ddarpariaeth ieuenctid ar gyfer y grŵp oedran 15 -18

Roedd y drafodaeth a ddilynodd yn canolbwyntio ar y pwyntiau canlynol –

- oherwydd y nifer uwch o rai dros 85 ac aelwydydd gorlawn roedd angen bod yn fwy penodol o ran sut oeddid yn mynd i'r afael ag anghenion tai ac i ddarparu ar gyfer teuluoedd yn yr ardal. Soniodd Rheolwr Adfywio Strategol am sut oedd y ffigurau wedi'u codi o'r cyfrifiad a'r nifer o safleoedd a glustnodwyd ar gyfer tai
- y tir sy'n eiddo i'r cyngor y tu ôl i safle Ysbyty HM Stanley a oedd â mynediad cyfyngedig ar hyn o bryd ac a all ddarparu cyfle petai'r datblygiadau preswyl arfaethedig ar y safle hwnnw'n mynd yn eu blaen
- codwyd pryderon ynghylch yr unedau gwag tymor hir yn y parc busnes a'r diffyg lle parcio ceir ar gyfer busnesau. Dywedodd Rheolwr Adfywio Strategol fod dadansoddiad o gyfraddau lleoedd gwag wedi canfod eu bod yn ymwneud ag unedau bychain
- dylid cyfeirio at y ddwy Swyddfa Bost yn Llanelwy a Siop Wynnstay fel adwerthwyr arbenigol poblogaidd
- roedd y Tweedmill wedi'i leoli yn Nhrefnant a dylai'r cyfeiriad ddarllen Parc Llannerch, Trefnant yn y Cynllun
- dylid cyfeirio mwy at Ysgol Glan Clwyd a'r ysgolion eraill o fewn y dref
- gwnaed awgrym y gellid cyfuno'r tri chais ar wahân am gyllid ar gyfer y Llyfrgell, y Ganolfan Gymunedol a'r Clwb Criced gyda golwg ar sicrhau un adeilad amlbwrpas ar eu cyfer
- cydnabuwyd bod y cynnydd yn y ffigur amddifadedd i'w briodoli i gwymp mewn incwm a chynnydd mewn diweithdra yn gymharol â gweddill Cymru.

***PENDERFYNWYD****, yn amodol ar sylwadau'r aelodau uchod, bod y Cabinet yn cefnogi'r cynllun tref arfaethedig ar gyfer Llanelwy.*

Yn y fan hon (11.10 a.m.) torrodd y cyfarfod am egwyl lluniaeth.

## 10 ADRODDIAD CYLLID AC ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL

Cyflwynodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill yr adroddiad yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb a gytunwyd a gofynnodd i'r Cabinet ystyried argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol. Rhoddodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- rhagwelid tanwariant net o £753k ar y gyllideb refeniw ar gyfer gwasanaethau ynghyd â £400k ar gyllidebau corfforaethol gyda gorwariant o £396k wedi'i ragweld ar gyfer ysgolion
- roedd £6.024 o'r arbedion a gytunwyd fel rhan o'r gyllideb wedi'u cyflawni ac roedd £0.275 yn cael eu gyrru ymlaen
- amlygwyd amrywiadau allweddol oddi wrth gyllidebau neu dargedau arbedion yn ymwneud â gwasanaethau unigol
- diweddariad cyffredinol ar y Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai. O ran prosiectau mawr bu'n rhaid tynnu Sinema'r Apollo yn ei ôl o'r Cynllun Cyfalaf yn dilyn sylwadau'r aelodau yn y cyfarfod diwethaf. Ar ôl ystyried ffynonellau cyllido byddai'r prosiect yn mynd yn ei flaen heb wariant cynllun cyfalaf.

Ymatebodd y Cynghorydd E.W. Williams i gwestiynau gan y Cynghorydd P.A. Dobb ynghylch y camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag ysgolion yr ystyriwyd eu bod mewn anhawster ariannol trwy gynlluniau adfer ariannol cadarn a chefnogaeth swyddogion cyllid, ac wrth ddelio â gweddillau dros ben. Amlygodd waith y Fforwm Cyllidebau Ysgolion wrth ddarparu ffyrdd dyfeisgar o gyllidebu'n effeithiol trwy wario'n strategol a chyfuno adnoddau. Cymerodd y Cynghorydd Williams y cyfle hefyd i gymeradwyo'r arfer o glystyru ysgolion a manteision gweithio cydgysylltiedig, a oedd wedi'u cydnabod gan Estyn hefyd. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M.Ll. Davies, dywedodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill mai'r rhagamcanion cyfredol oedd y ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ac y byddai adroddiad yn y dyfodol ar gynigion ar gyfer unrhyw danwariannau yn cael ei gyflwyno unwaith y byddent wedi'u cadarnhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Gofynnodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill am gefnogaeth hefyd i argymhellion y Grwp Buddsoddi Strategol fel y'u nodwyd yn Atodiad 5 i'r adroddiad, a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Cyngor ar 28 Chwefror i'w cymeradwyo fel rhan o'r Cynllun Cyfalaf ar gyfer 2012/13. Er eglurder dywedodd y Cynghorydd E.W. Williams fod y cronfeydd wrth gefn nas gwariwyd wedi'u dyrannu i Foderneiddio Addysg ac nid yn benodol i Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain (cyfeiriodd paragraff 4.5 Atodiad 5) a gofynnodd fod pob cyfeiriad yn yr adroddiad a dogfennau yn y dyfodol yn adlewyrchu hynny.

Nododd y Cynghorydd E.W. Williams yr argymhelliad i gyfuno'r cais Cyfalaf Cymunedol a chais Arian Cyfatebol Adfywio Strategol ynghyd â'r cronfeydd blaenoriaethol yn y gyllideb refeniw i greu cronfa strategol fwy a allai gefnogi cynlluniau tref, adfywio a chymunedau. Mynegodd bryder y gall cymunedau llai golli'r cyfle i wneud cais am gyllid a bod ar eu colled i brosiectau mwy mewn ardaloedd eraill a theimlai fod angen mwy o drafod a chraffu ar y mater ar y ffordd y byddai'r broses yn cael ei chyflenwi. Gofynnodd am sicrhad hefyd na fyddai cyllid yn y gyllideb refeniw yn cael ei ystyried yn gyllid cyfalaf ac y byddai'n cael ei gadw ar gyfer blynyddoedd i ddod. Cadarnhaodd Pennaeth Cyllid ac Asedau y byddai'r gronfa ond yn cynnwys elfennau cyfalaf a chyfeiriodd at y ffrydiau cyllido unigol sy'n cael eu trin yn unigol a fyddai'n elwa ar ffordd gydgysylltiedig o fynd ati i sicrhau'r

gwerth mwyaf posibl. Awgrymodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Trawsnewid Busnes ac Adfywio fod y Pwyllgor Craffu Cymunedau i graffu ar y mater. Cytunai'r Arweinydd fod angen craffu ar y broses a gofynnodd am sicrhad y gallai cyllid ar gyfer prosiectau llai gael ei dynnu i lawr yn hawdd.

Amlygodd y Cynghorydd P.J. Marfleet brosesau'r Grŵp Buddsoddi Strategol a rhoddodd wybod am y tebygrwydd y byddai derbyniadau cyfalaf sylweddol yn cael eu derbyn yn y flwyddyn ariannol hon. Roedd wedi'i ystyried yn synhwyrol adrodd yn ôl i'r Cabinet hwn ar ôl derbyn arian cyfalaf yn hytrach na gadael y mater i'w drin gan y weinyddiaeth newydd.

Roedd dyraniadau arfaethedig ar gyfer ceisiadau cyfalaf 2012/13 wedi'u cynnwys fel atodiad cyfrinachol i'r adroddiad ac er mwyn trafod y ceisiadau hynny ymhellach fe –

***BENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol am y rheswm eu bod yn debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Ymhelaethodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill ar y dyraniadau arfaethedig ac ymatebodd i gwestiynau'r aelodau ar hynny ac yn dilyn hynny fe –

***BENDERFYNWYD*** –

*(a)* *nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb a gytunwyd, a*

*(b)* *cefnogi argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol fel y'u nodwyd yn Atodiad 5 i'r adroddiad, yn amodol ar graffu pellach ar yr argymhelliad i gyfuno cyllid i greu cronfa strategol fwy i gefnogi cynlluniau tref, adfywio a chymunedau i sicrhau na fydd cymunedau llai ar eu colled pan fyddant yn gwneud cais am gyllid.*

**DIWEDDARIAD AR SINEMA A CHANOLFAN GELFYDDYDAU'R SCALA, PRESTATYN**

Yn y fan hon cyfeiriodd yr Arweinydd at benderfyniad blaenorol y Cabinet fod grŵp o uwch-swyddogion ac aelodau i gyfarfod gyda Bwrdd y Scala i drafod y mesurau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r anawsterau ariannol a gafwyd gan y cwmni. Rhoddodd y Cynghorwyr H.H. Evans, P.A. Dobb ac E.W. Williams adroddiad llafar ar y cyfarfod hwnnw gyda Bwrdd y Scala a gynhaliwyd y diwrnod blaenorol gan ddiweddaru'r Cabinet ar sefyllfa ariannol ddiweddaraf y cwmni a chanlyniad y cyfarfod. Rhoddodd Pennaeth Cyllid ac Asedau fwy o fanylion ynghylch y sefyllfa ariannol tymor byr ynghyd â hyfywedd mwy tymor hir y cwmni. Dywedodd y Cynghorydd Dobb y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cabinet.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r diweddariad llafar ar y sefyllfa ariannol.*

**SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau'r uchod ailddechreuodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

**11 CYFRIF REFENIW TAI, CYLLIDEBAU REFENIW A CHYLLIDEBAU CYFALAF 2012/13**

[Cyhoeddodd y Cynghorydd D.A.J. Thomas fudd personol ond heb fod yn niweidiol yn yr eitem hon gan ei fod yn denant i'r cyngor. Cyhoeddodd y Cynghorydd M.Ll. Davies fudd personol ond heb fod yn niweidiol yn yr eitem hon gan ei fod yn rhentu garej cyngor.]

Cyflwynodd y Cynghorwyr J. Thompson-Hill a D.A.J. Thomas yr adroddiad ar y cyd yn gofyn i'r Cabinet fabwysiadu'r Gyllideb Cyfrif Refeniw Tai a Chynllun Busnes y Stoc Tai a chodiad yn y rhenti am anheddau Cyngor, garejys a thaliadau gwresogi yn effeithiol o'r 2 Ebrill 2012. Arweiniwyd y Cabinet drwy ffigurau'r gyllideb a'r rhesymeg y tu ôl i'r codiadau arfaethedig yn lefelau rhent gyda'r holl denantiaid yn talu Rhent Awgrymedig am anheddau cyngor. Roedd tua 66% o'r holl denantiaid yn derbyn rhyw fath o fudd-dal tai ond o ystyried bod llawer o fudd-daliadau na chânt eu hawlio yn Sir Ddinbych roedd gwaith yn mynd ymlaen i gefnogi ymgyrch defnyddio budd-daliadau. Roedd yn bleser nodi bod Sir Ddinbych yn un o'r ychydig awdurdodau ar y trywydd iawn i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn mis Awst 2013.

Mewn ymateb i gwestiynau dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Tai fod Arolwg Cyflwr Stoc yn cael ei gomisiynu i ddarparu gwerthusiad trwyadl o stoc tai'r cyngor ac i glustnodi'r angen i fuddsoddi yn y dyfodol. Byddai'r proffil newydd yn cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Busnes y Stoc Tai. Cadarnhaodd hefyd y gall fod cyfle i gaffael stoc tai yn y dyfodol. Sir Ddinbych oedd y cyngor oedd yn perfformio orau yng Nghymru o ran ansawdd tai ac mewn ymateb i geisiadau gan aelodau i roi cyhoeddusrwydd i'r llwyddiant hwnnw, cadarnhaodd y Cynghorydd Thomas fod datganiad i'r wasg wedi'i ryddhau y diwrnod hwnnw ynghylch codi safonau tai cyngor yn Sir Ddinbych. Ar gais y Cynghorydd M.Ll. Davies, soniodd Pennaeth Gwasanaethau Tai am y rhesymeg y tu ôl i'r adolygiad o garejys er mwyn defnyddio'r safleoedd hynny'n fwy strategol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno –*

*(a) bod Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai (Atodiad 1 i'r adroddiad) a Chynllun Busnes y Stoc Tai (Atodiad 2 i'r adroddiad) i'w mabwysiadu;*

*(b) bod rhenti am anheddau Cyngor i'w codi'n unol â'r Polisi Gosod Rhent yn Adran 2.2.10 (5.67% ar gyfartaledd yn unol â Chanllawiau gan Lywodraeth Cymru) o ddydd Llun 2 Ebrill 2012;*

*(c) bod rhenti am garejys Cyngor i'w codi'n unol ag Adran 2.5.1 o £0.14 i £5.84 (2.5%) yr wythnos yn effeithiol o ddydd Llun 2 Ebrill 2012;*

*(d) bod taliadau gwresogi i'w codi'n unol ag Adran 2.6.3 yn effeithiol o ddydd Llun 2 Ebrill 2012.*

**12 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET**

Cyflwynodd y Cynghorydd H.H. Evans Flaenraglen Waith y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau nifer o ddiwygiadau fel a ganlyn –

- byddai adroddiad ar Sinema a Chanolfan Gelfyddydau'r Scala yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 20 Mawrth, a
- bod yr adroddiad ar y Strategaeth Adfywio ar gyfer Sir Ddinbych wedi'i dynnu oddi ar yr agenda ar 20 Mawrth.

Cytunodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Trawsnewid Busnes ac Adfywio i holi a fyddai'r eitem ar Gydweithrediad Rhanbarthol ar Adfywio Economaidd ar gael i'w gyflwyno i'r Cabinet ar 20 Mawrth.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Blaenraglen Waith ddiwygiedig y Cabinet*.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol am y rheswm eu bod yn debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 13 ac 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**13 RHAGLEN GRANT TEULUOEDD YN GYNTAF**

Cyflwynodd y Cynghorydd M.M. Jones yr adroddiad cyfrinachol (a rannwyd yn y cyfarfod) yn gofyn am gytundeb y Cabinet i ganlyniad ymarferiad tendro Teuluoedd yn Gyntaf. Rhoddodd hi fanylion y ddarpariaeth gyllido a'r ymarferiad tendro a thalodd deyrnged i waith caled y swyddogion a oedd a wnelo â'r broses.

Holodd y Cynghorydd P.A. Dobb ynghylch faint o gyllid sydd ar gael ar gyfer gofalwyr ifanc yn 2012/14 ac eglurodd Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad nad oedd yr holl gyllid wedi'i ddyrannu yn y gyfran gyntaf. Roedd y Cynghorydd Dobb yn gobeithio na fyddai'r elfen hon yn cael ei hanwybyddu.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cefnogi'r penderfyniad a wnaed gan Fwrdd Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc i gomisiynu'r gwasanaethau a gyflwynwyd yn Atodiad A i'r adroddiad.*

**14 BYW YN Y GYMUNED – ANABLEDD DYSGU**

Cyflwynodd y Cynghorydd P.A. Dobb yr adroddiad cyfrinachol yn argymell dyfarnu contract ar gyfer tri Chynllun Byw yn y Gymuned newydd. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y broses dendro a ddilynwyd a'r gwerthusiad a arweiniodd at yr argymhelliad i ddyfarnu contract i sefydliad penodol.

Rhoddodd y Cynghorydd Dobb fwy o fanylion y cynlluniau newydd i ddarparu tai â chymorth ar gyfer oedolion anabl gyda lefelau uchel o angen arbenigol. Cadarnhaodd hi hefyd y bu ymgynghori ag aelodau'r ward leol ar y cynlluniau.

***PENDERFYNWYD*** *dyfarnu'r contract i Cartrefi Cymru i ddarparu cymorth i'r tri Chynllun Byw yn y Gymuned yn Henllan i redeg am gyfnod o flwyddyn yn y lle cyntaf, yn adnewyddadwy am bum blynedd arall yn amodol ar berfformiad boddhaol.*

## 15 HYFFORDDIANT AC ADDYSG CYSYLLTIADAU GWAITH NEWYDD – CAFFAEL FFRAMWAITH O GYRSIAU HYFFORDDI ACHREDEDIG

Cyflwynodd y Cynghorydd P.A. Dobb yr adroddiad cyfrinachol yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r cytundeb caffael fframwaith hyfforddiant strategol yn rhestru cyflenwyr gofynion hyfforddiant ac addysg y prosiect. Roedd y prosiect Cysylltiadau Gwaith Newydd yn cefnogi amrywiol grwpiau sy'n wynebu anfantais i mewn i hyfforddiant, addysg a chyflogaeth ac roedd manylion y drefn dendro i ddarparwyr posibl wedi'u nodi yn yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cytundeb caffael fframwaith hyfforddiant strategol sy'n rhestru cyflenwyr gofynion hyfforddiant ac addysg y prosiect, fel yr argymhellwyd gan swyddogion, ar ôl cwblhau'r broses gaffael.*

## 16 PROSIECT HARBWR Y FORYD – DYFARNU CONTRACTAU

Cyflwynodd y Cynghorwyr D.A.J. Thomas a J. Thompson-Hill yr adroddiad cyfrinachol yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contractau adeiladu gam wrth gam ar gyfer Datblygiad Harbwr y Foryd yn amodol ar uchafswm gwerth a chymeradwyaeth gan Fwrdd Rhaglen Harbwr y Foryd. Roedd gan y Bwrdd hyder yn y costau adeiladu a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a byddai'n cymeradwyo'r holl gontractau'n ffurfiol cyn iddynt gael eu dyfarnu.

Soniodd y Cynghorydd Thomas am y pwysau amser ar gyfer dyfarnu'r contractau a nodwyd o fewn rhaglen y prosiect gan roi gwybod y gall unrhyw oedi arwain at beidio â chwblhau'r prosiect erbyn y dyddiad targed ac y byddid yn cael cosbau ariannol yn dilyn. Soniodd y Cynghorydd Thompson Hill am ailbroffilio cyllideb y prosiect gan ddweud ei fod yn gynllun hyfyw a oedd yn gyflawnadwy a thalodd yr aelodau deyrnged i waith caled y swyddogion yn hynny o beth. Yn olaf cyfeiriwyd at y rhaglen waith a'r dyraniadau risg ynghyd â chamau lliniaru. Cadarnhawyd y byddai'r prosiect yn cael ei fonitro'n gadarn.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo dyfarnu contractau adeiladu gam wrth gam i uchafswm gwerth o £9,699,999, ar y ddealltwriaeth bod y contractau adeiladu i gyd yn cael eu cymeradwyo gan Fwrdd Prosiect Harbwr y Foryd.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.15 p.m.